# Disgrifiad Swydd
# Swyddog Tai

**Mae'r holl feini prawf yn <u>hanfodol</u> oni nodir fel arall**

**Yn atebol i'r canlynol:** Uwch-swyddog Tai

**Yn gyfrifol am y canlynol:** Amherthnasol

**Diben cyffredinol y swydd:** Darparu gwasanaeth rheoli tai sy'n wasanaeth o safon ar gyfer yr eiddo y mae Barcud yn gyfrifol amdano, a fydd yn galluogi'r Gymdeithas i gyflawni ei hamcanion busnes a diwallu anghenion ei thenantiaid.

**Cyfrifoldebau Allweddol –**

**Rheoli Tai:**

- Darparu gwasanaeth rheoli tai o ddydd i ddydd sy'n wasanaeth proffesiynol, cynhwysfawr a chost-effeithiol o safon ac sy'n rhoi pwys arbennig ar ofal cwsmer yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r Gymdeithas.
- Ymgymryd â rôl ragweithiol ym maes rheoli tai, gan ymweld â thenantiaid a chynnal ymchwiliadau priodol er mwyn sicrhau bod stoc Barcud yn cydymffurfio ag amodau tenantiaeth, polisïau a deddfwriaeth berthnasol.
- Arwain prosesau Barcud ar gyfer eiddo gwag a gosod eiddo, gan gynorthwyo tenantiaid wrth iddynt adael a dechrau tenantiaethau gyda Barcud.
- Ymweld ag ystadau er mwyn ymgysylltu â chymunedau a thenantiaid, gan sicrhau bod cartrefi Barcud yn cael eu cynnal a'u cadw i'r safon uchaf.
- Nodi problemau cynnal a chadw a phroblemau glanweithdra y gellir eu datrys er mwyn gwella ansawdd ystadau Barcud, gan weithio gyda chydweithwyr perthnasol er mwyn rhoi'r atebion dan sylw ar waith.
- Darparu cyngor ac arweiniad i denantiaid, gan sicrhau bod gwasanaeth hygyrch ac addysgiadol yn cael ei ddarparu i denantiaid.
- Cadw cofnodion trylwyr a chywir am weithgareddau rheoli tai.
- Trefnu a mynychu cyfarfodydd tenantiaid yn ôl yr angen.
- Annog tenantiaid i ymgysylltu â Barcud a dylanwadu ar y modd y caiff gwasanaethau eu darparu.
- Hyrwyddo a sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau a safonau Barcud ar gyfer rheoli tai.
- Gweithio'n agos gyda chydweithwyr ym maes adennill incwm a chynnal tenantiaethau, er mwyn cynorthwyo tenantiaid sydd mewn angen a sicrhau bod

problemau'n ymwneud ag ôl-ddyledion rhent a thorri amodau tenantiaeth yn cael eu datrys yn fuan.

- Ymdrin yn fuan ac yn effeithiol â materion sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan uwchgyfeirio problemau priodol pan fo hynny'n addas.
- Datblygu perthynas gadarnhaol â thenantiaid a rhanddeiliaid allanol perthnasol, gan gynnwys awdurdodau lleol.
- Dirprwyo dros yr Uwch-swyddog Tai pan fo angen.

**Pobl:**

- Hybu diwylliant o gyflawni'n dda, sy'n hybu gwelliant parhaus ac arbedion effeithlonrwydd.
- Rhannu gwybodaeth am flaenoriaethau, cynlluniau, gweledigaeth ac amcanion y Gymdeithas er mwyn sicrhau bod gwaith yn cael ei gyflawni'n effeithiol gan fodloni'r safonau gwasanaeth a'r targedau a gytunwyd.

**Corfforaethol:**

- Hybu, datblygu a rheoli partneriaethau effeithiol â rhanddeiliaid mewnol ac allanol er mwyn sicrhau gwelliant parhaus wrth ddarparu gwasanaethau.
- Hybu mentrau iechyd a lles ym mhob rhan o'r sefydliad.
- Darparu gwasanaeth ardderchog i bob cwsmer mewnol ac allanol.
- Gweithio'n unol â pholisïau'r Gymdeithas ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant bob amser ac ym mhob agwedd ar waith cyflogi a darparu gwasanaethau.
- Sicrhau bod y Gymdeithas a'i gweithwyr yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol, statudol a rheoleiddiol ynghyd ag arfer gorau.
- Ym mhob agwedd ar waith y Gymdeithas, hyrwyddo systemau cyfathrebu effeithiol, rhagoriaeth o ran gwasanaeth i gwsmeriaid, a ffocws ar wella'n barhaus.
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau eraill y gallai fod yn rhesymol gofyn i ddeiliad y swydd eu cyflawni.

*Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd hwn fod yn rhestr gyflawn, ac o gofio y bydd gofynion, deddfwriaeth a rheoliadau'n newid, efallai y bydd angen adolygu a diwygio'r dyletswyddau fel y bernir yn rhesymol ac yn briodol.*

# Manyleb Person

## Swyddog Tai

Mae'r fanyleb person hon yn nodi'r profiad a'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer swydd Swyddog Tai yn Barcud. Mae'r holl sgiliau a'r holl brofiad yn hanfodol oni nodir yn benodol eu bod yn ddymunol (D).

**Cymwysterau**

- Addysg i lefel Safon Uwch neu lefel gyfatebol, gan gynnwys cymhwyster TGAU mewn Saesneg (Iaith).
- Cymhwyster proffesiynol perthnasol cydnabyddedig, yn enwedig gan y Sefydliad Tai Siartredig. (D)
- Cymhwyster ym maes rheoli. (D)
- Trwydded yrru lawn.

**Profiad**

- Profiad o ddarparu gwasanaeth rheoli tai sy'n wasanaeth o safon sy'n canolbwyntio ar y cwsmer.
- Profiad o ddatrys problemau cymhleth ym maes rheoli tai.
- Profiad o ymweld â thenantiaid ac ystadau.
- Profiad o feithrin cydberthnasau cryf ag ystod o randdeiliaid allanol.
- Profiad o ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Profiad o gadw cofnodion trylwyr a chywir.
- Profiad o fonitro a rheoli'r graddau y mae gwasanaethau rheoli tai yn cydymffurfio â pholisïau a safonau sefydliad.
- Profiad o weithio yn y sector cyhoeddus neu mewn cymdeithas dai.

**Sgiliau / Gwybodaeth**

- Dealltwriaeth dda o rychwant gwasanaethau rheoli tai a'r heriau cyffredin sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaeth hwn.
- Gwybodaeth am ddeddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol cyfredol sy'n ymwneud â rheoli tai.
- Parodrwydd i ddysgu Cymraeg i lefel 3 ALTE cyn pen dwy flynedd (os nad yw'n gallu siarad Cymraeg yn barod).
- Ymrwymiad cryf i ddiwylliant sy'n canolbwyntio ar bobl.

- Y gallu i hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob agwedd ar waith cyflogi a darparu gwasanaethau.
- Sgiliau cadarn o ran trafod rhifau, rhesymu a chyfathrebu'n ysgrifenedig.
- Y gallu i reoli, datblygu a gweithredu prosesau, gweithdrefnau a systemau sy'n ymwneud ag incwm o denantiaethau a rheoli a chynnal tenantiaethau.
- Y gallu i osod targedau perfformiad priodol a heriol iddo'i hun.